**Adroddiad ar**

**Cylch Meithrin Twtil**
**Neuadd Yr Eglwys**
**Heol Elinor**
**Twthill**
**Caernarfon**
**LL55 1PF**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2020**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Twtil

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Twtil |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Juliana Andrews |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Eirian Roberts |
| Nifer y lleoedd | 20 |
| Amrediad oedran y plant | 2 - 4 oed |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 2 dymor | 3 |
| Nifer y plant a ariennir am hyd at 5 tymor | 0 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener yn ystod tymhorau ysgol, rhwng 11:00yb a 3:00yp |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac ydi |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydi |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn darparu 'cynnig gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | 28/11/2019 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Chwefror 2013 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 21/01/2020 |
| Gwybodaeth ychwanegol<br><br>Mae lleiafrif o'r plant yn siarad Cymraeg ar yr aelwyd. | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **dd/p** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Gwella cyfleoedd i blant i ddatrys problemau yn annibynnol

A2 Sicrhau bod sesiynau torfol yn cynnal diddordeb yr holl blant

A3 Blaenoriaethu’r targedau mwyaf pwysig i wella’r lleoliad ymhellach

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron pob plentyn yn hapus ac yn fodlon yn y lleoliad. Maent yn ymgartrefu'n dda wrth gyrraedd ac maent yn awyddus i chwarae gyda'u ffrindiau. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud penderfyniadau a dewisiadau drostynt eu hunain yn effeithiol, ac maent yn symud o gwmpas yr ardaloedd dysgu yn hyderus.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu teimladau yn effeithlon. Maent yn awyddus i rannu eu profiadau gydag oedolion ac maent yn ymddiried yn yr ymarferwyr i wrando arnynt a pharchu eu syniadau. O ganlyniad, mae bron pob un yn datblygu perthynas gadarnhaol gyda'r ymarferwyr, sy'n creu sicrwydd iddynt wrth ymdopi â phrofiadau newydd. Er enghraifft, mae'r plant yn ymfalchïo yn rhyfeddod yr ymarferwyr, wrth iddynt wasgu botymau mewn llyfr, i wrando ar ganeuon adar. Mae bron pob un plentyn yn gyfarwydd â'r trefniadau dyddiol ac yn cydymffurfio'n ddeallus gyda'r gweithdrefnau, fel gosod eu lluniau ar goeden wrth hunan gofrestru.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn cymdeithasu'n fodlon ac maent yn barod iawn i rannu teganau ac adnoddau. Maent yn cymryd eu tro gyda'u ffrindiau yn synhwyrol. Er enghraifft, maent yn hapus i wylio a sgwrsio gyda'u cyfoedion tra'n defnyddio offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae lleiafrif yn dangos ymwybyddiaeth o deimladau eraill yn effeithiol ac maent yn awyddus i helpu eraill. Er enghraifft, maent yn dosbarthu clustogau i'w gilydd yn ystod amser cylch i sicrhau bod un gan bawb, ac maent yn annog ei gilydd i wenu os ydynt yn teimlo'n drist.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau eu chwarae a'u dysgu. Maent yn canolbwyntio a dyfalbarhau'n ddiwyd wrth fynd i'r afael â thasgau ac yn mwynhau arbrofi gydag offer a deunyddiau gwahanol. Enghraifft dda yw arbrofi gyda chynhwysyddion gwahanol yn y twb dŵr a'r cafn tywod, wrth lanw a gwagio blychau mewn parau. Mae'r rhan fwyaf yn chwilfrydig am y byd o'u cwmpas ac yn mwynhau chwarae gyda deunyddiau naturiol a defnyddio eu dychymyg yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn defnyddio brigau, plu a mwsogl yn effeithiol i greu nythod ac maent yn adeiladu tyrau'n hyderus gyda bocsys a nwyddau sydd wedi eu hailgylchu.

Mae bron pob plentyn yn dewis gweithgareddau yn ôl eu diddordebau ac yn datblygu medrau annibynnol da. Er enghraifft, maent yn dechrau ar eu gwaith celf ar ôl iddynt wisgo ffedogau, casglu brwsys paent ac arllwys eu paent eu hunain. Yn ogystal, yn ystod amser byrbryd, mae bron pob plentyn yn awyddus i olchi dwylo, arllwys diod a didoli ffrwythau i'w platiau yn gwbl annibynnol.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): dd/p**

Nid oes adroddiad ar ddysgu plant oherwydd nid oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol ar adeg yr arolygiad, nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir rywle arall, y gellid adrodd arnynt heb adnabod plant unigol.

## Gofal a datblygiad:  Da

Mae'r holl ymarferwyr yn ffurfio perthnasau cadarnhaol gyda'r plant.  Maent yn siarad â'r plant yn addfwyn ac yn dangos anwyldeb tuag atynt.  Mae'r ymarferwyr yn canmol y plant yn rheolaidd a chlodfori eu hymdrechion yn ddiffuant.  O ganlyniad, mae'r plant yn dysgu sut i ddatblygu gwydnwch ac maent yn datyblygu eu hunan hyder yn fuddiol.  Mae'r ymarferwyr yn defnyddio strategaethau effeithiol i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol.  Er enghraifft, maent yn denu sylw plant at brofiadau eraill os oes trafferthion rhannu a chymryd tro yn bodoli, gan esbonio'n glir bod eu hymddygiad yn annerbyniol.

Mae'r ymarferwyr yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau dyddiol ac maent yn eu dilyn yn drylwyr i sicrhau bod y plant yn iach ac yn ddiogel.  Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.  Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r arferion o'u hyfforddiant ar ddiogelu plant yn effeithiol  ac yn deall eu dyletswyddau'n dda.  Mae'r rhan fwyaf wedi cwblhau hyfforddiant cymorth cyntaf ac maent yn cofnodi unrhyw ddamweiniau'n briodol, gan sicrhau bod rhiant yn ymwybodol o'r digwyddiad.

Mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau effeithiol i atal lledaenu heintiau, fel annog y plant i olchi eu dwylo'n drwyadl a dilyn arferion addas wrth drin bwyd.  Maent yn hyrwyddo bwyta'n iach a darparu gweithgareddau ymarfer corff yn llwyddiannus, sy'n cynnwys defnyddio neuadd yr ysgol.  Mae'r ymarferwyr yn annog y plant i fwyta ffrwythau yn ystod amser byrbryd ac maent yn cynnig dŵr yfed ffres iddynt trwy gydol y sesiwn.  Yn ogystal, maent yn sicrhau bod cyfleoedd buddiol i'r plant dreulio amser tu allan yn yr awyr iach yn gyson.

Mae'r holl ymarferwyr yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn fwriadus ac yn sicrhau bod pob plentyn yn cael mynediad cyfartal i'r holl adnoddau a'r gweithgareddau.  Mae'r ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau effeithiol i gofnodi datblygiad y plant a monitro eu cynnydd yn bwrpasol.  Maent yn cadw enghreifftiau o'u gwaith yn ddiwyd a chwblhau proffil unigol ar gynnydd eu medrau yn effeithlon, sy'n effeithio'n gadarn ar y camau nesaf yn eu dysgu.

Mae gan y lleoliad drefniadau pwrpasol i adnabod a chefnogi anghenion unigol plant. Maent yn coladu gwybodaeth am anghenion a hoffterau'r plant cyn iddynt fynychu'r lleoliad yn drwyadl.  Maent yn gweithio'n llwyddiannus ag asiantaethau allanol, fel yr ymwelydd iechyd a therapyddion iaith i sicrhau bod y plant, sydd angen cefnogaeth ychwanegol, yn derbyn cymorth effeithiol yn ôl eu hanghenion.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):  Da

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cwricwlwm diddorol sy'n adlewyrchu athroniaeth y cyfnod sylfaen yn dda.  Maent yn darparu amryw o brofiadau dysgu pwrpasol yn gydwybodol, i gyfatebu'n effeithiol a'u themâu.  Mae hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar ddeilliannau'r plant a'u cynnydd o'u mannau cychwyn.

Mae'r cynllunio trefnus yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd effeithiol ymysg y plant.  Mae'r gweithgareddau llwyddiannus yn cynnwys heriau i ymateb ar lafar i storïau am adar y goedwig ac i ddisgrifio aelodau'r teulu wrth dynnu lluniau â sialc.

Yn ogystal, maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr "r plant arbrofi ag offerTGCh fel teganau a llechi electronig a chamerâu i ddatblygu eu medrau'n llwyddiannus. Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar ddatblygu medrau corfforol a chreadigol effeithiol. Maent yn cymell y plant i ddysgu'n ymarferol, trwy gydweithio i gropian trwy dwnel a chreu collage gyda dail, gwlân a defnyddiau gwahanol. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio digon o gyfleoedd heriol i'r plant ddatrys problemau yn gwbl annibynnol.

Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio'n dda ar wella Cymraeg y plant trwy ailadrodd geiriau ac ymadroddion yn gyson a chanu hwiangerddi cyfarwydd. Mae'r arferion rheolaidd yn cefnogi llawer o blant i ymateb yn briodol yn y Gymraeg.

Mae'r ymarferwyr yn gweithredu'n ddiwyd a holi'r plant yn dda. Maent yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddysgu trwy chwarae ymarferol, sy'n effeithio'n gadarn ar fedrau'r plant. Enghreifftiau da yw plannu blodau yn yr ardal allanol a choginio gyda phridd a thywod yn y gegin fwd. Mae'r ymarferwyr yn addysgwyr da a phwyllog, ac maent yn ddeallus wrth ymyrryd yng ngweithgareddau'r plant. Maent yn herio'r plant yn gyson i ganolbwyntio ar gwblhau tasgau, ac maent yn adeiladu perthnasau buddiol gyda'r plant trwy drafodaethau synhwyrol am eu gwaith. Fodd bynnag, mae'r cyflwyniadau, yn ystod sesiynau torfol, yn hir ac o ganlyniad, mae ychydig o blant yn colli diddordeb.

Mae'r ymarferwyr yn asesu cynnydd y plant yn effeithiol ac mae'r dystiolaeth yn cyfatebu'n gywir â'u deilliannau. Maent yn trafod yn synhwyrol gyda'r plant sut i wella'u gwaith. Maent yn defnyddio canfyddiadau'r asesiadau yn briodol i dargedu'n effeithiol y camau nesaf yn nysgu'r plant.

Mae pwyslais clir gan ymarferwyr ar ddathlu amrywiaeth a datblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant, fel astudio'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a dathliadau Diwali. Maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliant Cymru'n llwyddiannus trwy ymweld â chastell Caernarfon ac astudio nodweddion glannau'r Fenai. Mae'r ymarferwyr yn creu ymwybyddiaeth gadarn ymysg y plant o bobl yn eu cymuned a'u milltir sgwâr. Gwneir hyn trwy wahodd ymwelwyr a threfnu ymweliadau buddiol, fel heddweision a thaith i'r llyfrgell.

Mae'r ymarferwyr yn cynnal sesiynau agored tymhorol i rieni, i drafod cynnydd eu plant. Maent yn darparu llyfryn defnyddiol ac adroddiad cynnil iddynt ar ddiwedd cyfnod eu plentyn yn y lleoliad, sy'n adlewyrchu cyflawniadau eu plant yn effeithiol.

**Yr amgylchedd: Da**

Mae'r holl blant yn derbyn gofal ac addysg effeithiol mewn adeilad sydd wedi ei gynllunio, a'i osod, i hyrwyddo'u hannibyniaeth yn dda. O ganlyniad, mae'r ymarferwyr yn cymell y plant i ddysgu a datblygu eu medrau'n bwrpasol.

Mae'r ardaloedd chwarae yn ddiddorol a deniadol ac mae digon o le i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Mae'r ardaloedd dysgu wedi eu trefnu'n bwrpasol, gydag amrywiaeth o weithgareddau ac adnoddau i gyfoethogi profiadau'r plant yn llwyddiannus. Er enghraifft, mae llyfrau ac adnoddau wedi eu gosod i gyd-fynd â'r thema gyfredol, sef 'Adar'. Mae'r adnoddau hygyrch o ansawdd da ac maent yn cael eu storio ar lefelau isel, sy'n galluogi'r plant i ddewis offer yn annibynnol. Mae'r ardal allanol yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau a chyfleodd pwrpasol i blant chwarae

a datblygu ymwybyddiaeth o'r byd o'u cwmpas. Er enghraifft, maent yn dysgu'n dda sut i ddosrannu cynhwysion yn y gegin fwd, a sut i wneud marciau â sialc ar fwrdd du.

Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod yr offer a'r adnoddau yn lân ac mewn cyflwr da. Cwblheir rhestr wirio wythnosol er mwyn sicrhau fod ansawdd yr offer a'r adnoddau'n cael ei fonitro'n effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod cyfleoedd da i blant ddysgu am y byd o'u cwmpas. Er enghraifft, gwneir defnydd effeithiol o adnoddau a deunyddiau naturiol i alluogi'r plant i ymchwilio ac ymholi. O ganlyniad, maent yn arbrofi'n effeithiol gyda moch y coed a brigau ar fwrdd darganfod, a chreu modelau yn frwdfrydig gyda deunyddiau sydd wedi eu hailgylchu. Yn ogystal, mae ystod o adnoddau pwrpasol ar gael i hybu ymwybyddiaeth y plant yn llwyddiannus o ddiwylliannau gwahanol, fel llyfrau, doliau a phosteri.

Mae'r arweinydd yn blaenoriaethu diogelwch y plant ac yn sicrhau bod gweithdrefnau yn eu lle fel bod unrhyw beryglon posib yn cael eu monitro a'u rheoli'n briodol. Mae asesiadau risg trylwyr yn amlinellu pryderon a'r camau sydd wedi eu cymryd i leihau neu atal y risg. Mae unrhyw beryglon yn cael eu canfod a'u datrys yn gyflym ac yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn aros tu mewn i'r adeilad yn ystod tywydd stormus gan fod perygl yn bodoli o lechi ddisgyn o'r to. Mae gan y lleoliad drefniadau cadarn ar gyfer derbyn ymwelwyr i'r adeilad ac mae ymarferwyr yn dilyn gweithdrefnau diogelwch effeithiol pan fydd plant yn cyrraedd a gadael y safle.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r arweinydd, sy'n newydd i'w swydd, yn llywio cyfeiriad pwrpasol i waith y lleoliad. Mae ei gweledigaeth glir yn sicrhau profiadau diddorol i'r plant, sy'n effeithio'n dda ar eu deilliannau. Yn ogystal, mae'r arweinydd a'r person cofrestredig wedi cymryd camau cadarnhaol ac amserol i sicrhau cydymffurfiaeth gyda rheoliadau a safonau.

Mae'r cynllunio o weithgareddau a pholisïau'r lleoliad yn canolbwyntio'n ddiwyd ar fodloni anghenion y plant yn effeithiol. Mae'r arweinydd yn gweithio'n gydwybodol gyda'r ymarferwyr awyddus ac mae ganddynt ddisgwyliadau da o ran eu hunain a'r plant. O ganlyniad, maent yn llwyddo i gynnig profiadau difyr yn ddyddiol, sy'n targedu gwelliannau cadarn yn nysgu a lles y plant.

Mae gweithdrefnau hunanwerthuso trefnus yn effeithio arferion y lleoliad yn dda. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau ystyriaeth lawn i farnau ei gilydd ac asiantaethau allanol. Maent yn cynnal trafodaethau rheolaidd gyda phawb sy'n gysylltiedig â'r lleoliad, fel y rhieni, i wella'r ddarpariaeth a phrofiadau dysgu'r plant. O ganlyniad, mae'r gweithdrefnau yn effeithio'n gadarnhaol ar greu gwelliannau. Er enghraifft, maent wedi gwrando'n ofalus ar swyddogion yr awdurdod lleol a Mudiad Meithrin i ail-strwythuro'r ardaloedd dysgu, ac i wella'r trefniadau asesu i dargedu'r camau nesaf yn nysgu'r plant yn effeithiol.

Mae'r person cofrestredig a'r pwyllgor rheoli yn gefnogol. Maent yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn deall eu rolau'n llawn trwy werthusiadau cyson. Maent yn defnyddio gweithdrefnau meintiol yn ddeallus ac yn cefnogi'r arweinydd i adnabod cryfderau'r lleoliad a'r materion sydd angen gwella. Mae effeithiolrwydd y gweithdrefnau hyn yn

arwain at gynllun datblygu manwl sydd yn anelu at wella nifer fawr o dargedau, fel defnyddio cyfarpar TGCh yn llwyddiannus.  Fodd bynnag, nid yw’r cynllun datblygu yn ddigon cywrain i ganolbwyntio ar dargedau anghenrheidiol y lleoliad, sydd angen gwelliannau ynghynt na’r lleill.

Mae’r person cofrestredig a’r pwyllgor rheoli yn dyrannu adnoddau yn synhwyrol. Maent yn sicrhau digon o ymarferwyr cymwys ac yn galluogi iddynt fynychu hyfforddiant perthnasol.  Mae’r hyfforddiant pwrpasol yn cryfhau’r ddarpariaeth a bodloni anghenion y plant yn effeithiol.  Yn ogystal, maent yn cydweithio’n rheolaidd gyda’r awdurdod lleol a Mudiad Meithrin i wario grantiau yn ddoeth.  O ganlyniad, mae eu hagweddau cadarnhaol yn hyrwyddo gwell profiadau i’r plant, trwy gyllido adnoddau defnyddiol, fel cegin fwd yn yr awyr agored.

Mae gan y lleoliad ystod o bartneriaethau effeithiol, fel y rhieni a’r gymuned leol.  Yn ogystal â chefnogi trwy godi arian yn flynyddol, mae’r rheni yn mynychu cyngherddau a digwyddiadau elusennol yn ffyddlon i gefnogi eu plant.  Mae cysylltiadau cadarnhaol iawn yn bodoli gyda’r ysgol gyfagos.  Mae’r lleoliad yn defnyddio neuadd yr ysgol a’r buarth yn gyson am weithgareddau corfforol pwrpasol.  Yn ogystal, mae trefniadau da yn eu lle i sicrhau bod y plant yn trosglwyddo i’r cam nesaf yn eu haddysg yn esmwyth a diffwdan.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2020: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 24/03/2020